# Ffeithiau allweddol am gofrestru

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) cyn y gallant ymarfer yn y DU. Cyn i chi wneud eich cais ar-lein, rhaid i chi:

1. Darllen y canllawiau wedi'u teilwra sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau. Er enghraifft, os gwnaethoch chi gymhwyso yn y DU ac yn dymuno cofrestru fel deintydd, darllenwch ein canllawiau ar gyfer deintyddion a DCPs a gymhwysodd yn y DU [add link]. Os gwnaethoch chi gymhwyso dramor ac yn dymuno cofrestru fel DCP, darllenwch ein canllawiau ar gyfer DCPs a gymhwysodd dramor [add link]
2. Sefydlu cyfrif ar-lein [add link]. Cysylltwch â ni os oes angen addasiad rhesymol arnoch
3. Llenwi'r holiadur llwybr i gofrestru
4. Gwneud cais ar-lein.

Cofiwch ei bod hi'n anghyfreithlon ymarfer deintyddiaeth yn y DU cyn rhoi rhif cofrestru.

## Cyfieithu dogfennau

Rhaid i unrhyw ddogfen neu ardystiad nad yw yn Saesneg gael ei gyflwyno gyda chyfieithiad ardystiedig (wedi'i lofnodi). Mae hyn yn cynnwys cyfieithu unrhyw stampiau neu ddatganiadau a ysgrifennwyd gan y person sy'n ardystio llungopi o'ch dogfen.

Cyfieithiad ardystiedig yw cyfieithiad cywir o'r iaith wreiddiol i'r Saesneg a wnaed gan gyfieithydd cymwys.

Rhaid i'r cyfieithiad fod ar bapur pennawd y cwmni a chynnwys llofnod, enw a chyfeiriad y cyfieithydd.

Darllenwch y canllawiau sy'n berthnasol i'ch llwybr i gofrestru i gael gwybodaeth am bwy all ardystio'ch dogfennau.

## Tystiolaeth o newid enw

Os nad yw eich enw yr un fath ar yr holl ddogfennau ategol, rhaid i chi ddarparu copi o'ch tystysgrif priodas, tystysgrif ysgariad neu ddatganiad statudol sy'n cadarnhau newid eich enw, sydd wedi'i ardystio'n gywir (darllenwch y canllawiau ar gyfer eich llwybr i gofrestru i gael gwybodaeth am bwy all ardystio eich dogfennau).

## Tystysgrif Statws Da/Tystysgrif Statws Proffesiynol Cyfredol

Os ydych chi wedi bod yn gweithio y tu allan i'r DU fel gweithiwr proffesiynol deintyddol cyn i chi gofrestru am y tro cyntaf gyda'r GDC, rhaid i chi gysylltu â'r awdurdod/rheoleiddiwr deintyddol yn y wlad lle buoch chi'n gweithio ddiwethaf a gofyn iddyn nhw anfon e-bost at assessments@gdc-uk.org gyda Thystysgrif Statws Da (CGS) neu Dystysgrif Statws Proffesiynol Cyfredol (CCPS) wreiddiol.

Rhaid i'r CGS/CCPS gadarnhau:

- Bod gennych **hawl gyfreithiol** i ymarfer
- Nad ydych chi wedi cael eich **atal, ei anghymhwyso neu eich gwahardd** rhag gweithio fel gweithiwr deintyddol proffesiynol.

Ni ddylai'r dystysgrif fod yn fwy na thri mis oed ar adeg cofrestru.

## Iaith Saesneg

Rhaid i bob ymgeisydd a gymhwysodd y tu allan i'r DU ddarparu tystiolaeth ddiweddar, wrthrychol eich bod yn gallu darllen, ysgrifennu, gwrando a rhyngweithio'n effeithiol yn Saesneg gyda chleifion, perthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill mewn perthynas â'ch rôl fel gweithiwr deintyddol proffesiynol. Dyma enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn:

- Tystysgrif yn dangos sgôr lwyddo o 7 o leiaf yn arholiad academaidd y System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS), gyda sgôr o 6.5 o leiaf ym mhob categori
- Tystysgrif yn dangos cymhwyster deintyddol sylfaenol diweddar sydd wedi'i addysgu a'i arholi yn Saesneg, ynghyd â ffurflen geirda strwythuredig [add link] gan eich prifysgol yn cadarnhau hyn
- Tystysgrif yn dangos llwyddiant diweddar mewn prawf iaith ar gyfer cofrestru gydag awdurdod rheoleiddio mewn gwlad lle mai Saesneg yw'r iaith gyntaf
- Geirda strwythuredig a chontract cyflogaeth sy'n dangos profiad diweddar o ymarfer mewn gwlad lle mai Saesneg yw'r iaith gyntaf a brodorol

Am ragor o wybodaeth, darllenwch ein canllawiau Rheolyddion iaith Saesneg.

## Datganiad iechyd

Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth am eich iechyd a gwybodaeth bellach am unrhyw gyflyrau iechyd perthnasol a allai effeithio ar, neu sydd wedi effeithio ar, ddiogelwch cleifion, pobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, neu'ch gallu i wneud eich swydd yn ddiogel.

Er nad rhestr derfynol yw hon, dyma enghreifftiau o gyflyrau y byddem yn disgwyl gwybod amdanynt:

- Nam ar y golwg heb ei gywiro
- Presenoldeb unrhyw glefyd heintus, firws a gludir yn y gwaed (twbercwlosis, hepatitis B) neu glefyd trosglwyddadwy arall
- Meddyginiaeth wedi'i rhagnodi sy'n amharu'n sylweddol ar yr ymateb imiwnedd
- Clefyd neu bryderon seiciatrig
- Pryderon sy'n gysylltiedig ag alcohol neu gyffuriau.

Gweler Datganiadau iechyd am ragor o wybodaeth.

Os byddwch yn datgan cyflwr iechyd, bydd angen i chi uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol, fel datganiad gan eich meddyg teulu/arbenigwr yn cadarnhau eich bod yn ffit i weithio neu unrhyw beth arall rydych chi'n teimlo sy'n berthnasol i'ch cyflwr.

## Euogfarnau a rhybuddiadau

Rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw euogfarnau a rhybuddiadau blaenorol, gan gynnwys y rhai a ystyrir wedi 'darfod' (ac eithrio rhybuddiad gwarchodedig neu euogfarn warchodedig). Mae hyn oherwydd nad yw Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn berthnasol i gais i ymuno â chofrestr y GDC. Darllenwch Adrodd materion i'r CDC am wybodaeth fanwl.

Os byddwch yn datgan euogfarn neu rybuddiad, bydd angen i chi uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol megis gwiriad DBS, unrhyw ddogfennaeth sy'n ymwneud â'ch euogfarn neu rybuddiad, a datganiad gennych yn manylu ar sut rydych chi'n teimlo am y digwyddiad a'r hyn a ddigwyddodd.

Mae angen i ni wybod hefyd a ydych chi wedi bod yn destun unrhyw achosion disgyblu proffesiynol yn y gorffennol, neu a oes unrhyw rai yn cael eu hystyried yn eich erbyn, gan gorff rheoleiddio neu drwyddedu yn y DU neu unrhyw wlad arall. Gweler Adrodd materion i'r CDC am ragor o wybodaeth.

Os byddwch yn datgan eich bod yn destun achos disgyblu proffesiynol neu eich bod wedi bod yn destun achos disgyblu proffesiynol, bydd angen i chi uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol megis unrhyw adroddiadau canlyniad, argymhellion neu amodau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r achos, ac unrhyw beth arall yr ydych yn teimlo sy'n berthnasol i'w rannu.

## Cyfrifoldebau'r Cofrestrydd

Y Cofrestrydd sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ar eich cais i ymuno â chofrestr y GDC. Mae hyn yn cynnwys gwirio eich bod yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cofrestru a bod yr wybodaeth a ddarparwch yn gyflawn ac yn gywir.

Yn y DU, dim ond pobl sydd wedi cofrestru gyda'r GDC all ymarfer deintyddiaeth.

.